FE FYDD amryw o ddarllenwyr *Y Casglwr* bellach wedi cael y cyfle i ddarllen cyfrol ddiweddaraf Mr D. Tecwyn Lloyd, - *Cofio rhai pethe a phethe eraill* a gyhoeddwyd yn ystod yr haf eleni.

Ffugenwau ac enwau barddol yw pwnc ysgrif gyntaf Mr Lloyd, lle y cyhoeddir am y tro cyntaf ffrwyth yr ohebiaeth ddifyr a fu rhyngddo a'r Athro Bedwyr Lewis Jones ynghylch y gŵr hwnnw a arddelai'r ffugenw *Homo Ddu*.

Brithir colofnau barddol gwasg gyfnodol a newyddiadurol Gymraeg chwarter olaf y ganrif ddiwethaf â cherddi ac englynion o'i waith, yn enwedig *Y Cylchgrawn*, Methodistaidd, a *Tarian y Gweithiwr*. Gwyddys hefyd iddo gyhoeddi llyfryn o'i ganeuon - *Aeron Rhondda*, yn Nhreherbert yn 1882. Ar wahân i hynny, ychydig a wyddai'r ddau chwilotwr amdano.

Yn rhyfedd iawn, bûm innau hefyd ar drywydd Homo Ddu ym mis Gorffennaf eleni, a hynny ar gais un o aelodau ei deulu - gŵr o Ferring ger Worthing yng ngorllewin Sussex. Dichon y bydd y wybodaeth a ddaeth i glawr bryd hynny o ddiddordeb i gylch ehangach.

* * *

GANWYD Richard Lewis, oblegid dyna'i enw priod, yn fab i Jane a William Lewis o Gasllwchwr, ac fe'i prentisiwyd yn ifanc i deiliwr yn Brimingham. Mae'n debyg taw Richard Lewis oedd enw hwnnw hefyd, a phenderfynodd y gŵr o Gasllwchwr ychwanegu'r cyfenw 'Smith' at ei enw'i hun, rhag cymysgu rhagor rhwng y ddau, ac fel Richard Lewis Smith yr adwaenid ef wedi hynny.

# HOMO DDU – A'I DEBYG

## HUW WALTERS a'r ffugenwau rhyfeddol

Dychwelodd i Gymru ymhen y rhawg gan ddilyn ei alwedigaeth fel teiliwr yn y Ddinas a Thonypandy yng Nghwm Rhondda. Yr oedd eisoes wedi dechrau cyfrannu i golofn farddol *Tarian y Gweithiwr* a gedwid bryd hynny gan Ddafydd Morganwg a Brynfab, - gan arddel *Homo Ddu* yn ffugenw.

Yr oedd y Parchedig John Wyndham Lewis, bugail eglwys Fethodistaidd Heol Dŵr, Caerfyrddin, hyd ei farw yn 1895, yn hanner brawd iddo. Ac ymddengys iddo yntau hefyd arddel y ffugenw *Homo Ddu* ar un adeg, a hynny er mawr ofid i Richard. Yn wir, yn ôl J.E. Rhys *(Ap Nathan)*, mewn ysgrif o'i eiddo a gyhoeddwyd yn y *Western Mail* yn 1935, bu bron i'r brodyr fynd i gyfraith ynglŷn â'u hawl ar y ffugenw.

Ond ymddengys i'r Parchedig J Rhys Morgan *(Lleurwg)* setlo'r mater drwy awgrymu y dylai John fabwysiadu 'Wyndham' fel enw canol, ac felly y bu. Methiant fu pob ymdrech hyd yn hyn i ddod o hyd i ddyddiad marw Homo Ddu, ond mae'n debyg mai tua 1894 y bu hynny.

* * *

HWYRACH ei bod yn werth crybwyll *Rhestr Ffugenwau* y Llyfrgell Genedlaethol yn y fan hon, sef rhestr o enwau barddol, ffugenwau a llysenwau o bob math mewn dwy gyfrol a luniwyd gyda'r bwriad o hwyluso ymchwil staff a darllenwyr fel ei gilydd.

Fel y gellid ei ddisgwyl, ceir miloedd lawer o ffugenwau yn y rhestr, ac mae'r gwaith yn seiliedig ar nifer fawr o ffynonellau sy'n cynnwys *Y Bywgraffiadur Cymreig*, papurau Bob Owen, Croesor a W.W. Price, Aberdâr, a gweithiau bywgraffyddol o bob math. Sylweddolir fodd bynnag, nad yw'r gwaith yn gyflawn.

Rhestra Mr Tecwyn Lloyd nifer o ffugenwau anghyffredin yn ei ysgrif. Ysywaeth, nid yw pob un ohonynt yn y *Rhestr Ffugenwau*, ond datgelir ynddi taw Syr Watkin Williams Wynn oedd *Eryr Eryrod Eryri*.

Ymhlith ffugenwau anghyffredin eraill y *Rhestr* y mae: *Canwr Cilarne* (Alfred Percival Graves), *Eryres Eurblu Eryri* (Margaret Jones o Fetws-y-coed), a *Llais y Werin* (y newyddiadurwr lliwgar Hannen Swaffer).

Hwyrach mai'r ffugenw mwyaf soniarus o'r cyfan yw eiddo rhyw Joseph Jones o'r Wyddgrug, sef *Echrysgythrawgollwch*. Nid oes sôn am *Homo Wyn* yma chwaith, ond dichon taw perthynas iddo oedd *Homo Môn*, sef Thomas Richard Owen o Landdeusant.

# YMYL Y DDALEN

YN YSTOD y deng mlynedd ar hugain diwethaf ni lwyddais i grynhoi rhagor na chwe chyfrol a argraffwyd cyn y flwyddyn 1600. Prynais bump ohonynt a chael un, sef Beibl 1588, yn gyfnewid am gopi o'r Beibl Bach 1630. Wele restr ohonynt:

1. *Commentarioli Britannicae Descriptionis Fragmentvm* (Cologne 1572) gan Humphrey Lluyd;
2. *The Breuiary of Britayne* (Llundain 1573) - cyfieithiad Thomas Twyne o rif 1;
3. *Historiae Brytannicae Defensio* (Llundain 1573) gan John Price;
4. *Y Beibl Cyssegr-lan* (Llundain 1588);
5. *Cambrobrytannicae Cymraecaeve Lingvae Institvtiones Et Rvdimenta* (Llundain 1592) gan Siôn Dafydd Rhys.

Ac eithrio rhifau 4 a 5 y mae'r cyfrolau eraill yn gyflawn.

Bu Rhif 1 yn eiddo'r casglwr llyfrau enwog Sir Mark Masterman Sykes (1771-1823) o Stedmere, Swydd Efrog. Rywdro o'i flaen ef bu'r gyfrol yn eiddo Edward Twopeny.

Un o gyn-berchnogion rhif 2 oedd 'E. Webb'. Sut, tybed, y daeth yn eiddo i 'Elisabeth Jones, Refal Newydd, Amlwch, Anglesea' yn y cyfnod diweddar?

Ceir plât llyfr W. Wynne ar glawr blaen rhif 3 ac arno'r arwyddair 'Ni Bydd Doeth Na Ddarllenno'. Hefyd ceir llofnodion 'Wm Glynne' a 'Charles Jones'.

Pwy oedd 'Edward Lloyd de llanvair dyffryne Cloyd' neu 'Edward lloyd de Wernen' a fu unwaith yn berchen rhif 4? Dichon fod 'Peter Lloyd', llofnodwr arall y gyfrol yn perthyn iddo.

Nid oes dim tystiolaeth i ddangos pwy oedd rhai o gyn-berchnogion rhif 5.

'C. Lloyd Cynfel', mi gredaf oedd perchen cyntaf rhif 6. Yn 1853 perthynai'r gyfrol i Margaret Lewis, Y Llythyrdy, Tredegar. Yn 1865 rhoddodd hi'r gyfrol i Garibaldi Thomas, ei mab-yng-nghyfraith.

D.W.W.


LLÊN LLŶN

Y Maes, Pwllheli, Gwynedd, LL53 5HB.
Ffôn: Pwllheli (0758) 612907

AMRYW, sef
GARDD EIFION – Robert ab Gwilym Ddu (Lerpwl, 1877);
GWAITH BARDDONOL – Goronwy Owen (Lerpwl, 1878);
GWAITH BEIRDD MÔN – Lewys Morys a Robin Ddu o Fôn (Lerpwl, 1879);
GWAITH BARDDONOL John Blackwell (Lerpwl, 1879) 550t. 9.00
BEIRDD y Lôn Goed (gol. T. Lloyd Jones) 48t. Dryw 1950 4.50
GWYDDONIADUR CYMREIG. 10 cyfrol. Cyfa, ond braidd yn flêr. Bargen am 9.50
CYBI: Odlau Eifion. 128t. Pwllheli, 1908 4.00
CYBI: Lloffion yr "Ardd" – Barddoniaeth anghyhoeddedig Robert ab Gwilym Ddu. 127t. Pwllheli, 1911 4.00
CYFAILL yr Aelwyd (gol. Beriah Gwynfe Evans) Cyf. 3. Hydref 1882-Medi 1883. 380t. ¼ lledr Llanelli 5.00
DEWI Emrys: Odl a Chynghanedd. 195t. Foyle, 1938 5.50
DEWI Wyn o Eifion: Blodau Arfon (a'r Atodiad) 428t. Caernarfon, 1869 6.50
EDWARDS, O.M: Tro yn Llydaw. 136t. Wrecsam, 1921 3.00
ELIS, Islwyn Ffowc: Blas y Cynfyd. 275t. Aberystwyth, 1958 4.50
EVANS, E. Lewis: Morgan Llwyd, 195t. Brython, 1931 (arg 2) 4.00
GOLDSMITH, Oliver: Hanes y Ddaear a'r Creaduriaid Byw (2 gyfrol, 10" x 7") 508/520t. Llawer o ddarluniau lliw. Caeredin, 1866. Y cloriau wedi'u trwsio gyda phapur llwyd. Gan hynny, bargen am 28.50
GRIFFITH, David: Hanes yr Eglwys Gristnogol a'r Mynachlogydd yng Nghymru. 384t. Dolgellau, d.d. 5.00
GWAITH Barddonol Ioan Madog (gol. Cynhaiarn) 158t. Pwllheli, 1881 4.00
GWYR Llên (gol. Aneirin Talfan Davies) 267t. Llundain, 1949 (arg.2) 7.00
JONES, J.R: Prydeindod. 61t. Dryw, 1966 5.00
JONES, John Gwilym, Y Dewis, Gee, 1941 6.00
JONES, Mary Eirwen: Welsh Crafts 160t + platiau du/gwyn Batsford, 1978 6.00
JONES, Owen: Hanes y Cymry, 350t, Pwllheli, 1853 7.50
JONES, R. Tudur: Hanes Annibynwyr Cymru, 340t. Abertawe, 1966 7.00
JONES, Roland (o Fôn): Y Brenin a cherddi eraill. 36t. Brython, d.d. 2.50
JONES, T. Gwynn: Daniel Owen (dwyieithog) 73tM. GPC, 1936. 4.50
JONES, T.O. (Tryfan): Diarhebion y Cymry. 196t.Conwy,1891 6.00
JONES, William: Teithiau Wil Tyddyn, 169t. TAG, 1977 3.50
LEWIS, Saunders: A School of Welsh Augustans, 181t. Bath, 1969 6.50
LLAFAR 1952 (gol. Aneirin Talfan Davies) Sgyrsiau Radio 139t. Aberystwyth 3.00
LLOYD, J.E: A History of Wales. 80tM. Llundain, 1930 2.00
LLYWELYN-WILLIAMS, Alun: Crwydro Arfon. 227t + dar. Dryw, 1959 (arg.1) 5.00
MORGAN, R: Llyfr Adar 180t. + dar. lliw. Hughes, 1907 (arg.2) Clawr blêr 2.50
MORRIS-JONES, John: Caniadau 190t. Rhydychen, 1907 5.50
MORRIS-JONES, John: Cerdd Dafod. 382t. Rhydychen, 1930 (arg.2) 6.00
PENRY, John: The Aequity of an Humble Supplication(1587) 55t. Llundain (Congregational Historical Society), 1905 10.00
PHILLIPS, T.O: Robert Roberts, y Sgolor Mawr (dwyieithog) 105t, GPC, 1957 3.25
PRICE, Thomas (Carnhuanawc): Hanes Cymru a Chenedl y Cymry, 798t. Crughywel, 1842 12.00
RHYS, John: Celtic Britain, 320t. mapiau lliw, Llundain, 1882 6.00
ROWLAND, William: Tomos Prys o Blas Iolyn (dwyieithog) 77tM, GPC, 1964 3.50
ROWLANDS, E.D: Dyffryn Conwy a'r Creuddyn. 243t. Brython, 1947 4.50
WILLIAMS, A.H: An Introduction to the History of Wales (2 gyfrol) 192/201t. GPC, 1962 7.00
WILLIAMS, E.R (Ianto): Odlau Lleyn (sol-ffa) 32tM. Pwllheli, 1922 2.00
WILLIAMS, J. Lloyd: Y Tri Thelynor, 139t. Foyle, d.d. 6.50
WILLIAMS, J.O. (Pedrog): Stori 'Mywyd. 353t Brython, 1932 7.00
WILLIAMS, John H: Caneuon Oriau Hamddenol. 126tM. Pwllheli, 1874 5.00
M – Clawr meddal
Cludiad yn ychwanegol